
# Gwybodaeth i Gleifion

# Ynghylch eich Impiad Cornbilen

**Gwybodaeth bwysig ynglŷn â'ch Impiad Cornbilen**

Yn ddiweddar cawsoch lawdriniaeth impio'r gornbilen (ceratoplasti treiddiol). Yn ystod y llawdriniaeth, tynnwyd rhan ganol eich cornbilen yr oedd afiechyd arni a rhoddwyd meinwe rhodd yn ei lle.



Donor graft sutured into host cornea

Fel yn achos unrhyw feinwe arall a drawsblannir (e.e. yr aren, y galon neu'r ysgyfaint), mae eich cornbilen newydd yn feinwe estron i'ch corff. Gall eich corff wrthod y gornbilen ar unrhyw adeg. Os bydd hyn yn digwydd, bydd arnoch angen triniaeth ddwys.

**Arwyddion o'ch corff yn gwrthod y gornbilen y dylech gadw golwg amdanynt:-**

- Cochni yn y llygad
- Dyfrio
- Poen
- Y golwg yn gynyddol aneglur
- Llid a/neu boen cynyddol
- Mwy o sensitifrwydd i olau

Os ydych chi'n sylwi ar unrhyw rai o'r symptomau hyn, mae'n bwysig eich bod yn gweld rhywun cyn gynted â phosibl. Po gynharaf y cychwynnwch driniaeth y mwyaf yw'r tebygrwydd yr achubir yr impiad.

**O ble caf ragor o gyngor?**

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cysylltwch â:-

Adran Cleifion Llygaid Allanol:-
Rhif Ffôn:- 01633 238413
Rhwng 8.30am a 5.00pm

Neu

Ward Lygaid ar:-
Rhif Ffôn:- 01633 238415
(Mae hwn yn rhif cyswllt 24 awr)

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/ This document is available in English".**